Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 02-06-20 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Wendy Williams, Geraint Owen, Gwenan Roberts, Gwilym Williams, Arthur Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Austin Roberts a Phyllis Purchase |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/03/20).

   Cynigwyd cofnodion 03/03/20 yn gywir gan Cyng Ceri ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Ethol Swyddogion (Cadeirydd ac Is Gadeirydd):**

     **Cadeirydd** – Cyng Geraint yn cynnig Cyng Gwilym yn Gadeirydd. Cyng Wendy yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.
     **Is-Gadeirydd** – Cyng John yn cynnig Cyng Wendy. Cyng Geraint yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

   **Cymerodd Cyng Gwilym y Gadair.**

   - **Enwebu cynrychiolwyr ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eglwys Bach a Neuadd y Pentref:**

     **Ysgol Eglwys Bach** – Cyng Wendy yn cynnig Cyng John Emlyn i barhau. Cyng John yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.
     **Neuadd y Pentref** - Cyng John Emlyn yn cynnig Cyng Ceri i barhau. Cyng Wendy yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **Awdit Ariannol 2019-20:**

  Y Clerc yn gorffen y cyfrifon cyn eu cymryd i Cyng John Emlyn a'r cyfrifydd. Cyng John Emlyn wedi ychwanegu gwybodaeth ar y safle we. Cyng Ceri i roi'r wybodaeth ar yr hysbysfwrdd. Bydd angen cyfarfod arall i gymeradwyo'r cyfrifon.

- **Rheoliadau Ariannol:**

  Cynghorwyr yn cymeradwyo'r rheoliadau.

- **Rheolau Sefydlog:**

  Cynghorwyr yn cymeradwyo'r rheolau.

- **Adolygu Asesiad Risg:**

  Y Clerc i ofyn i'r cyfrifydd os oes angen cael asesiad risg. Os oes, bydd angen cwblhau asesiad risg yn y cyfarfod nesaf.

- **Mandad Banc:**
  Cynghorydd Gwenan wedi bod i'r banc ac wedi cwblhau'r mandad.

- **Coed ger Cilgeran:**
  Y Clerc wedi derbyn llythyr gan y preswylwyr (Mr a Mrs Quick) – trafod o dan gohebiaeth.

6. **CYNLLUNIO**

   Dim.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

   Cyfredol - £4,811.15
   Angladdau - £125.20
   Cadw - £2,077.09

   Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i symud £1,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif angladdau i dalu am anfonebau sy'n ddyledus ac anfonebau'r dyfodol. Cytunodd y Cynghorwyr i gyd. Y Clerc i drosglwyddo.

   **Sieciau:**
   **Cyfredol:**

- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00
- Neuadd Aberconwy – £36.00

- Iona Edwards (cyfrifydd) - £60.00
- Cyng John Emlyn (trwydded gwrth firws) - £39.99

- **Angladdau:**
  Wil Williams (torri glaswellt) - £345.00

8. **GOHEBIAETH**

- Llythyr: Tŷ Gobaith - cymorth ariannol:

  Cyng John Emlyn yn cynnig rhoi cyfraniad, Cyng Wendy yn eilio'r cynnig. Cyng Arthur yn cynnig £250, Cyng John Emlyn yn eilio'r cynnig. Pawb yn cytuno.

- Llythyr: A J Quick, Cilgerran – llythyr o ymateb:

  Cafwyd trafodaeth. Y Clerc i ysgrifennu llythyr o ymateb.

  Cyng John yn gofyn am ganiatâd i ofyn i Eifion Wynne, Wern wagio'r trelar. Cynghorwyr yn cytuno.

- E-Bost: CBSC - Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a Gwastraff Swmpus:

  Noder er gwybodaeth.

- E-Bost: CBSC - Cronfa LEADER Ymateb Cymunedol COVID19:

  Noder er gwybodaeth.

- Llythyr: Sioe Eglwys Bach – llythyr o ddiolch:

  Noder er gwybodaeth.

- Anfoneb: Iona Edwards, Cyfrifydd Siartredig:

  Y Cynghorwyr yn cytuno i dalu'r anfoneb.

- Anfoneb: Neuadd Aberconwy:

  Y Cynghorwyr yn cytuno i dalu'r anfoneb.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Tyllau ar Ffordd Maenan - gornel gyntaf ar y rhiw. Y Clerc i gysylltu ag ERF;
- Pwyllgor Gwyrdd - ddim wedi symud ymlaen oherwydd COVID-19 ond bydd yn ailgychwyn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi;
- Baner y pentref - mae Cyng Ceri wedi prynu baner newydd ond mae angen cefnogaeth arni i'w gosod;

- Neges o ddiolch gan y Cyngor Cymuned i'r plant yn y pentref am baentio negeseuon gobaith ar gerrig a'u gosod o amgylch y pentref yn ystod y cyfyngiadau. Cyng Ceri i roi neges o ddiolch ar dudalen 'Facebook' y Cyngor.

- Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal cyn diwedd mis Mawrth.

**Diolchiadau:**

- Diolchodd Cyng John Emlyn i'r holl gynghorwyr am eu hymroddiad i'r gymuned a dymunodd phob dymuniad da i Cyng Gwilym yn ei rôl fel Cadeirydd.
- Diolchodd Cyng John i Cyng John Emlyn am ei waith amhrisiadwy fel Cadeirydd a dymunodd yn dda i Cyng Gwilym.
- Diolchodd y Clerc i Cyng John Emlyn am ei gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a'i gymorth parod bob amser.

10.**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

07/07/20
01/09/20
06/10/20
03/11/20
01/12/20

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 o'r gloch.